Ken Skates AC/AM
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KS/08076/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

23 Hydref 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Hydref ynghylch deiseb P-05-899 Bysiau i bobl nid er elw.

Mae Bil Trafnidiaeth Gyhoeddus (Cymru), a elwir bellach yn Fil Bysiau (Cymru), yn rhan ehangach o fesurau diwygio ehangach a bydd yn ein helpu i gyflawni ein huchelgais o greu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig, a gaiff ei gynllunio a'i ddarparu er budd y cyhoedd ac sy'n diwallu anghenion y cyhoedd sy'n teithio.

Bydd y newidiadau a gaiff eu cynnig yn y Bil yn ceisio mynd i'r afael â rhai o effeithiau negyddol dadreoleiddio ar ddefnyddwyr bysiau, gweithredwyr ac awdurdodau, drwy greu nifer o ddulliau a fyddai'n cynorthwyo awdurdodau lleol i gynllunio a chyflenwi gwasanaethau bws lleol yn eu hardaloedd. Bydd y dulliau'n galluogi awdurdodau lleol i ymyrryd drwy, er enghraifft, gyflwyno cynlluniau breinio neu ddarparu gwasanaethau lleol yn uniongyrchol os byddant yn dewis gwneud hynny. Bydd y newidiadau a gaiff eu cynnig yn y Bil yn sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol y dulliau sydd eu hangen ar gyfer sbarduno newid.

I gael rhagor o wybodaeth am y Bil a'r agenda ehangach ar gyfer diwygio bysiau darllenwch fy natganiad ysgrifenedig yma https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-diweddaraf-ynghylch-y-bil-trafnidiaeth-gyhoeddus-cymru-ar-agenda-ar-gyfer?_ga=2.69709144.930205360.1571735647-1089874835.1571226219.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae fy swyddogion yn cydweithio'n agos â Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol er mwyn mynd i'r afael â'r gwaith hwn, a hynny'n unol â'r amserlen ar gyfer cyflwyno ym Mlwyddyn 4 o'r rhaglen ddeddfwriaethol bresennol.

Ken Skates AC/AM
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport